LC300

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001**

**Y cefndir**

Mae’r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, fel y mae wedi’i sefydlu o dan Ran V o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae crynodeb o’r rheoliadau ar gael yn y Nodyn Esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliad 1(2)**

Yn y diffiniad o “trefniadau mewn perthynas â chŵynion, chwythu’r chwiban neu eiriolaeth” nid yw’n ymddangos bod yr ymadrodd “yn y drefn honno” yn gwbl briodol, o gofio nad yw’r is-adrannau y cyfeirir atynt yn ymdrin â phob un o’r tair elfen yn yr ymadrodd diffiniedig ar wahân ac yn olynol.

**Rheoliad 6(c)**

Gellid meddwl y dylai “have not” yn y testun Saesneg fod yn “have not or are not”, a hynny er mwyn cyd-fynd â’r geiriad cynharach.

**Rheoliad 10(4)(b)**

Credir y dylai “arrange” fod yn “arranging”.  Da hefyd fyddai bod yn gyson wrth ddefnyddio priflythrennau neu lythrennau bach ar ddechrau is-baragraffau (a) a (b) yn y testun Saesneg.

**Rhan VII**

Mae’r pennawd yn darllen “RHAN VI”

**Memorandwm Cywiriadau**

Os yw’r Gweinidog o blaid diwygio’r rheoliadau i gymryd unrhyw un o’r pwyntiau uchod i ystyriaeth, cadarnheir y byddai’n briodol cynnwys y materion hyn mewn Memorandwm Cywiriadau.  Cywiriad teipograffyddol yn unig fydd cywiro pennawd Rhan VII.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

3 Gorffennaf 2001